CYMDEITHAS BOB OWEN
Elusen Gofrestredig Rhif 507948

Y Casglwr
Argraffwyd gan Wasg Gwynedd
Cibyn, Caernarfon, Gwynedd

CYMDEITHAS BOB OWEN
Tâl aelodaeth: £7.50 y flwyddyn (Awst-Gorffennaf neu Ionawr-Rhagfyr) i'w anfon i'r Trysorydd

SWYDDOGION
*Cadeirydd:*
Dr Rhidian Griffiths
Llyfrgell Genedlaethol Cymru
Aberystwyth, Ceredigion
*Ysgrifennydd:*
Gwyn Tudur Davies
11 Maes yr Afon, Aberystwyth
Ceredigion SY23 1PL
(01970) 623174
*Trysorydd:*
Miss Anne K. Till
Llyfrgell Genedlaethol Cymru
Aberystwyth, Ceredigion
*Golygydd:*
Mel Williams
Tan-y-Castell, Llanuwchllyn
Y Bala, Gwynedd LL23 7TA
ebost:tanycastell@yahoo.com
(01678) 540652
*Pwyllgor Gwaith y Gymdeithas:*
Y Swyddogion
Dr Brynley Roberts
Dafydd Jones
Dr R. Geraint Gruffydd
Dr E. Wyn James
Dafydd Glyn Lloyd Hughes M.A.
Rheinallt Llwyd
Huw Ceiriog Jones
Mrs Mair Edwards
Dr Maredudd ap Huw
Deian ap Rhisiart

**Y RHIFYN NESAF**

Erthyglau a mân hysbysebion i'r **GOLYGYDD**

**ERBYN Mai 26**

Neilltuo gofod hysbysebu i'r **TREFNYDD HYSBYSEBION**

**ERBYN Mai 28**

Copi o'r hysbyseb i'r **GOLYGYDD**

**ERBYN Mai 30**

Gwasg Gwynedd
Cibyn, Caernarfon, Gwynedd LL55 2BD
Argraffwyr a Chyhoeddwyr
Ffôn: (01286) 674486

**Gwasanaeth y Deillion**

Mae'r gymdeithas uchod yn darparu tapiau llafar o erthyglau sy'n ymddangos yn y Casglwr i Danysgrifwyr y Gymdeithas. Am fwy o wybodaeth cysylltwch â **Miss Anne K. Till, 01970 820235.**

# Golygyddol

Mae pawb yn y gymdeithas yma, dybiwn i, yn casglu rhywbeth sy'n ymwneud â Chymru, boed yn llyfrau, recordiau, ffilmiau ac ati. Yn sicr, mae casglu gwybodaeth am hanes lleol hefyd yn rhan annatod o'r casglu. Cawn Gyfarfod Bach mewn capel bach yng Nghwm Pennantlliw, sy'n un o gymoedd Llanuwchllyn, a bob blwyddyn gosodir traethawd ar hanes lleol y fangre hon, ac yn y gorffennol cafwyd testunau, megis cyfraniad y Sistersiaid i'r ardal, olion diwydiannol, enwogion y Cwm, Cymeriadau'r gorffennol a chwedlau, ynghyd â'n llenorion lleol. Credaf fod hyn yn holl bwysig ac yn gosod ar bapur hanes sy'n dal yng nghof y trigolion lleol. Ond pam fod cymaint o gasglu eiddo megis llyfrau, poteli a chofolion (memorabiliau)? Mae yna nifer o resymau, megis diogelu hen hanes i'r dyfodol, ond yn anffodus dydy'r perchnogion yn aml ddim yn meithrin y to ifanc o fewn eu teulu eu hunain i werthfawrogi hyn, ac o'r herwydd, yn methu trosglwyddo'r rhin a deimlent hwy yn y casglu, y trwsio a'r byseddu. Y canlyniad yw fod y casgliad yn aml yn cael ei chwalu, yn cael ei gamdrin ac yn dirywio. Faint ohonom ni sydd â llyfrgell neu gasgliad o hen bethau sy'n ymwneud â Chymru? Ydi pawb ohonom ni'n gwybod pwy fydd yn mynd i'w hetifeddu? Os nad ydych chi'n gwybod hyn rwan, mae'n bryd ichi ddeffro a cheisio trosglwyddo'r boddhad a'r dyletswydd er mwyn sicrhau bod eich casgliad yn ddiogel i'r genhedlaeth nesaf.

Credaf ei bod hi'n bryd inni, hefyd, restru'r holl ddefnyddiau hanes sy'n ymwneud â Chymru ac sy'n gorwedd mewn amgueddfeydd a llyfrgelloedd gwledydd eraill, a bod y Gymdeithas yn mynd ati i sicrhau eu bod yn dychwelyd adref. Ceir cannoedd yn Lloegr, megis llythyrau yn ymwneud â Chymru, er enghraifft, y Littere Wallie, Llyfr Teilo a elwir gan y Saeson yn *The Lichfield Gospel* a leolir yng nghadeirlan Lichfield yn swydd Stafford, Llyfr Coch Hergest yng Ngholeg yr Iesu, Rhydychen, a nifer fawr o drysorau gwerthfawr eraill ein Cenedl. Beth am ddechrau ymgyrch ar ran y Gymdeithas i'w dychwelyd? Gadewch imi wybod. Gyda digon o gefnogaeth gallwn bwyso ar y cyrff dylanwadol a'r Cynulliad i wthio'r maen i'r wal.

# At y Golygydd



5 Glan Llyn
Llanfachraeth
Caergybi
Ynys Môn

Annwyl Gyfaill,

Yn y llun, sy'n dangos y tu mewn i Eglwys Llanfigael, mae reiliau'r allor i'w gweld cyn uched â'r allor ei hun. Gwelwch hefyd sedd y clochydd wrth droed y pulpud. Mae mewn lle addas iddo allu neidio ar ei draed petai y cŵn yn dechrau ymladd â'i gilydd. Gwelwch fod y pulpud hanner ffordd i fyny'r llwybr ac yn erbyn y mur gogleddol. Y pulpud yn y canol, a wiw i neb gysgu yn ystod y bregeth hir! Mae desg y person, lle mae'n arwain y gwasanaeth, wrth ochr y pulpud ac yn nes at yr allor, gyda grisiau ohoni i'r pulpud, ac yna sedd y sgweier wrth ei hochr. Yma yr eisteddai Wiliam Morris.

Sylwch ar y seddau bocs gogyfer y dosbarth canol, y ffermwyr a'u teuluoedd, y meinciau di-gefn i'r gweision a'r morynion, ac yn y cefn mae gofod i'r tlodion eistedd ar y gwellt a fyddai ar y llawr. (Pob un yn ei le, ac yn gwybod ei le!)

Cwpan Cymun 1574, pryd y penderfynodd Elisabeth I beidio priodi Philip o Sbaen ac yn sicrhau mai Protestaniaid fyddem, ac yn cael derbyn y bara a'r gwin yn y cymun, ac felly angen cwpan mwy. Y gloch, 1642, dechrau terfysg Cromwell, a 'God Save This Church' arni. Bedyddfaen 13eg ganrif ac un arall 1840, dim ond tair o'r rhain sydd ar ôl ym Mhrydain, 'Bedyddfaen Gwpwrdd'.

Tynnwyd y llun wedi'r gwasanaeth blynyddol ac felly nid yw'r allor yn y man y byddai yn yr 16eg ganrif. Mae'r gwaith coed o'i chwmpas wedi ei wneud iddi fod â'i thalcen yn erbyn y mur dwyreiniol, fel y gallai'r person sefyll a'i ochr, ac nid ei gefn at y gynulleidfa, dim 'magic' mwyach yn y Cymun ond pawb i weld y plât a'r cwpan drwy'r gwasanaeth! Dyna pam mae drws y reiliau ar yr ochr chwith ac nid yn y canol. Mae seddau'r cymunwyr wrth ochr yr allor, a'r rhai fyddai'n dymuno cymuno yn dod ymlaen i eistedd, hanner ffordd drwy'r gwasanaeth, hen drefn Eglwys Rufain, amser y byddai'r offeiriad yn dweud, 'Ite missa est', 'Go it is the dismissal'. Mewn geiriau eraill, 'Ewch adra os nad ydych eisio cymuno'. Gan eu bod yn clywed y gair 'missa' cyn gadael dywedent fod y gweddill yn aros am y Mass.

Byddai rhywbeth tebyg yn digwydd yn y capel pan oeddwn yn hogyn. Y rhai oedd ddim am ymuno yn yr Ordinhad yn mynd adre. Yn y Llyfr Gweddi Cyffredin, gwahoddiad sydd yma, 'Dewch yn nes drwy ffydd', i'r ffyddloniaid fynd i fyny. (Mae Eglwys Llanfigael ar agor o Fai – Fedi a'r agoriad i'w gael drwy ffonio (01407) 742322. Croeso i bartïon.

EDGAR JONES